Annwyl gyfeillion, dewch ar daith yn ôl trwy amser gyda fi. Mae'n Fehefin 1989, mae'r haul yn tywynnu a'r awyr yn gynnes. Mae bywyd yn dda. Rydym yn eistedd ar wal y tu allan i dŷ wedi ei leoli yn Laura Place, Aberystwyth. Rydym yn aros i fyfyriwr arall ymddangos – myfyriwr sydd am ein helpu ni gyda golygu cylchgrawn sydd ar y gweill 'da ni.

Yn bwyllog ddigon mae 'na gar Alfa Romeo yn troi i mewn i Laura Place. Mae'r radio mlaen ond yr hyn sy'n syndod yw mai opera yw'r gerddoriaeth sy'n llifo allan trwy ffenestri agored y car. Mae'r car yn parcio ac allan o'r car mae na foi mewn dillad trwsiadus yn dod mas ac yn cerdded tuag atoch chi. Ai hwn ydi'r myfyriwr yr ydych chi'n aros amdano? Does bosib! Daw yn nes ac mae'n eich cyfarch – "Siôn?" "Ie" – ry'ch chi'n ateb. "Helo – Lloyd ydw i, Lloyd Jones!" a dyna oedd y tro cyntaf i fi gwrdd â Lloyd. Fe wnaethon ni dreulio'r penwythnos yn selar y tŷ yn Laura Place yn gweithio ar gylchgrawn *Yr Efrydydd* a oedd yn cael ei gyhoeddi dan nawdd yr SCM – y Student Christian Movement – yr oeddwn i'n gwneud tipyn ag o ar y pryd yn genedlaethol yng Nghymru ond yn ehangach hefyd ar lefel Prydeinig.

Roedd hi siŵr o fod yn tynnu am chwarter canrif neu ragor cyn i lwybrau Lloyd a fi groesi eto – sy'n syndod mewn ffordd o ystyried natur y Gymru Gymraeg, ond erbyn hynny roeddwn i'n gweithio i Ymddiriedolaeth y BBC ac wrthi'n cynnal digwyddiad estyn allan gyda chynulleidfaoedd yn Eifionydd a Llŷn. Roedd hi'n ganol prynhawn a ninnau ar ein ffordd nôl i'r Fali er mwyn dal yr awyren adref i Gaerdydd a gyda chwpwl o oriau yn sbâr fe wnaethom ni fel tîm alw i mewn yma – i Eglwys Sant Beuno – gan ei bod hi'n un o ryfeddodau Cymru o'r canol oesoedd. Yno roedd Lloyd, a oedd erbyn hynny yn Rheithor Clynnog Fawr, ar fin cynnal gwasanaeth ac fe gawsom sgwrs hyfryd eto, gyda'r chwarter canrif a oedd wedi mynd heibio ers i ni weld ein gilydd megis dim! Person felly oedd Lloyd o 'mhrofiad i – rhywun a oedd yn gwneud ffrindiau am oes, a oedd yn ymgorffori meithrin cysylltiadau a phontio rhwng y traddodiadau a'r enwadau Cristnogol. A dyna pam efallai ei bod hi'n addas falle mai'r teitl a ddewisais ar gyfer sesiwn heno oedd "Dringo'r ail fynydd: y dyfodol i eciwmeniaeth i Gymru?" yn enwedig gan 'mod i'n deall gan Casi bod Lloyd â hoffter neilltuol o fynyddoedd. A rhaid i mi ddweud ar y cychwyn fel hyn cymaint o fraint yw hi cael traddodi'r ddarlith hon er cof am Lloyd – felly diolch yn fawr i Casi am y gwahoddiad ac i Rosie am fod ynglŷn â'r trefniadau ac am wneud y cyswllt cyntaf.

Ond beth mewn difri ydw i'n ei olygu gyda'r teitl hwnnw? Fel y gwyddoch rwyf wedi bod yn swydd Prif Weithredwr Cytûn ers dechrau Ebrill – felly rhyw 4 mis – ac wrth feddwl am y ddarlith hon bu'n rhaid i fi benderfynu ar y ffiniau, sef beth i'w gynnwys a beth i'w hepgor. Ac wrth gwrs dyna natur eciwmeniaeth hefyd – gall fod yn hynod eang i rai ac yn eithriadol gyfyng i eraill. Felly y casgliad y deuthum iddo yw mai y deunydd y byddwn yn cyfeirio ato fyddai'r hyn sydd wedi croesi fy nesg ers i mi gychwyn yn y swydd. Hynny yw, y pethau yr wyf wedi eu clywed, y sgyrsiau yr wyf wedi eu cael a'r deunydd yr wyf wedi ei ddarllen ers ddechrau Ebrill. Gadewch i fi ddweud felly cyn mynd gam ymhellach y bydd rhai ohonoch chi sy'n eistedd o 'mlaen i cyn hir yn rhincian dannedd ac yn meddwl 'pam na fuasai fe wedi sôn am hwn neu'r llall?' Fy ymateb i hynny bydd cytuno â chi a dweud yn blwmp ac yn blaen mai tros-olwg chwim o'r maes y cawn ni heno, ac mai argraffiadau personol sydd yma hefyd, er mwyn cychwyn trafodaeth ehangach, a'n cynorthwyo ni oll i ystyried pa ddyfodol sydd i eciwmeniaeth yng Nghymru, ac - os oes 'na ddyfodol - beth fydd natur yr eciwmeniaeth hynny. Yn y pen-draw aelod enwadau Cytûn, trwy yr Ymddiriedolwyr y maent yn eu henwebu, sydd a'r cyfrifoldeb o osod cyfeiriad Cytûn at y dyfodol, a gwneud hynny trwy ddeialog gyda'n harweinwyr eglwysig, ac i'r perwyl hwnnw rwyf wedi cynnull cyfarfod ar y cyd rhwng yr Ymddiriedolwyr ac arweinyddion yr enwadau ym mis Hydref ac rwy'n edrych ymlaen at weld ffrwyth y drafodaeth honno.

Ychydig flynyddoedd ar ôl i fi gwrdd â Lloyd, fe gychwynnais ar fy ngyrfa ym maes Cyfathrebu – fel swyddog y wasg cyntaf erioed Plaid Cymru. Roedd rheini yn ddyddiau cyffrous a hynod foddhaol mae'n rhaid cyfaddef, ond daeth yn amlwg o'r cychwyn yn deg bod na rai cwestiynau cwbl allweddol ym maes cyfathrebu. Y cwestiynau rheini yn Saesneg yw "who what why when where and how?" – "Pwy, beth, pam, pryd, lle a sut" Os nad yw stori newyddion neu ddatganiad i'r wasg yn ateb y cwestiynau rheini, yna mae'n fethiant, ac mewn difri mae'r cwestiynau rheini yn allweddol i ni i gyd wrth i ni ystyried y rhan fwyaf o sefyllfaoedd. I ni nawr mae'n debyg mai "pwy beth a pam" yw'r cwestiynau allweddol achos os fedrwn ni ddod o hyd i ateb i'r rheini, yna mae'r "pryd, lle a sut" - when where and how - yn tipyn haws i'w hateb.

Felly gadewch i ni fynd nôl i'r hanfodion a holi pwy a beth yw Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru a pam ei fod yn bodoli, cyn ein bod ni'n troi at elfennau eraill ynghlwm â'r tri chwestiwn hwn.

I unrhyw elusen, mae hanfodion yr elusen honno i'w gael yn ei chyfansoddiad, a dywed cyfansoddiad Cytûn mae ei hanfod yw "uno mewn pererindod yr eglwysi rheini yng Nghymru sydd, gan gydnabod datguddiad Duw yng Nghrist, yn cyffesu mai ein Harglwydd Iesu Grist yw ein Duw a'n hiachawdwr yn unol â'r ysgrythurau; ac, mewn ufudd-dod ag ewyllys Dduw ac yng ngrym yr Ysbryd Glân, yn ymrwymo eu hunain i geisio dyfnhau eu cymundod â Christ ac â'u gilydd yn yr Eglwys, sef corff Crist, ac i wireddu eu cenhadaeth i gyhoeddi'r Efengyl trwy dystiolaethu a gwasanaethu'r byd ar y cyd, er gogoniant i Dduw, Dad, Mab ac Ysbryd Glân." Â'r cyfansoddiad yn ei flaen i ddweud mai fel â ganlyn yw Datganiad Cenhadaeth Cytûn:

1. Annog yr Eglwysi i dyfu yn yr undod a rydd ac a ewyllysia Crist ar gyfer ei Eglwys 'er mwyn i'r byd gredu'
2. Cadarnhau a dangos lle canolog addoliad a gweddi ym mhob tasg yr ymgymerir â hi
3. Galluogi'r eglwysi i wynebu ynghyd y materion sy'n eu rhannu er mwyn iddynt fedru tyfu i fod â dealltwriaeth llawnach o natur, pwrpas ac undod yn Eglwys Crist
4. Annog yr eglwysi i ymgymryd gyda'i gilydd fentrau ym meysydd efengylu a chenhadaeth
5. Galluogi'r eglwysi i ymateb gyda'i gilydd i anghenion o fewn y gymuned ddynol, yn yr ynysoedd rhaid a thramor, trwy rannu'r adnoddau rheini a ddarperir gan Dduw
6. Galluogi'r eglwysi i gychwyn deialog gyda'r awdurdodau seciwlar a Chrefyddau byd eraill ar faterion perthnasol
7. Cynorthwyo'r eglwysi i ddod i farn gyffredin a phenderfynu ar bethau ar y cyd
8. Parhau i gyflawni'r gweithredoedd rheini a ystyrir yn addas o safbwynt aelod eglwysi'r Elusen

Yn yr holl faterion hyn bydd yr Elusen yn canolbwyntio yn bennaf ar y materion cyhoeddus ac eglwysig sydd angen adnoddau ar y cyd, myfyrdod a gweithredu yr holl eglwysi, gan gadw mewn cof safbwyntiau Ewropeaidd a byd-eang."

Felly – i symud ymlaen at y cwestiwn nesaf – pam, dyma holi pam bod hyn yn bwysig ac er mwyn ateb y cwestiwn hwnnw fe hoffwn gyfeirio at rhyw bump neu chwech o anerchiadau yr wyf wedi eu clywed dros y misoedd diwethaf – gyda phedair ohonynt wedi eu traddodi yn ystod cymanfa gyffredinol CEC – y

Conference of European Churches – a gynhaliwyd yn Tallinn, Estonia nôl yng nghanol mis Mehefin.

Ond cyn gwneud hynny rwy'n credu ei bod hi'n werth i ni holi'r cwestiwn crafog "a yw hi'n werth yr ymdrech?" neu yn Saesneg – "Why bother?" a dyw hyn ddim yn gwestiwn hollol dwp. Wedi'r cyfan o edrych ar yr ystadegau o ran crefydd a chred yng nghyfrifiad 2021 gallech chi ddehongli'r sefyllfa fel un go dywyll ac fel y noda erthygl a ymddangosodd mewn sawl papur newydd ym mis Mai 2022, yn dyfynnu ffrwyth ymchwil Dr John Hayward, a oedd yn ei dro yn adeiladu ar sylfaen gwaith ystadegol hir-dymor Peter Brierley, mae pethau ar y goriwaered go iawn. Mewn nifer o erthyglau  a ymddangosodd yn y wasg ym mis Mai 2022, defnyddiodd Hayward y cysyniad o'r rhif 'R' – a ddaeth yn hysbys i ni i gyd yng nghyd-destun lefelau heintio yn ystod pandemig Cofid-19. Fe gofiwch bod y rhif R hwn yn rhoi rhyw amcan i ni o gyflymder heintio yn ein cymunedau. Trwy ddefnyddio'r un cysyniad daeth Hayward i'r casgliad y bydd nifer o'r enwadau traddodiadol yng Nghymru wedi diflannu o fewn yr ugain i ddeg mlynedd ar hugain nesaf. Roedd hyn wrth gwrs yn dod cyn cyhoeddi ffigurau cyfrifiad 2021 ond yr un oedd y stori yno hefyd, gyda'r canran o'r boblogaeth a oedd yn galw eu hunain yn Gristnogion wedi gostwng o 57.6% yn 2011 i 43.6% yn 2021. Wrth gwrs, rydym ni oll sy'n gwasanaethau o fewn gwahanol enwadau Cymru wedi gweld hyn i rhyw raddau wrth i ni weld y niferoedd yn mynychu gwasanaethau yn gostwng, gydag oedran cyfartaleddol mynychwyr yn mynd yn hŷn ar y cyfan. Ond yr enwadau yn diflannu yn llwyr? Mae'n werth i chi edrych dros fwletin polisi Pasg 2023 Cytûn – sef ffrwyth myfyrdod ac ymchwil fy nghyd-weithiwr a'm cyfaill y Parch Gethin Rhys, swyddog Polisi Cytûn. Yn ei drafodaeth o'r ffigurau, dywed Gethin na ddylem mewn difri roi gormod o bwys ar y newid hwn yn  y canrannau dros y degawd, gan bod "ein profiad ni fel eglwysi yn dangos nad oedd llawer o'r 57.6% a atebodd felly yn 2011 yn ymlynu at arferion crefyddol Cristnogaeth, hyd yn oed yn achlysurol. Mynegiant o etifeddiaeth ddiwylliannol neu ymdeimlad o hunaniaeth oedd yr ateb i lawer; i eraill byddai'n dynodi efallai eu hawydd am gael angladd Gristnogol ar ddiwedd  y daith." Mae Gethin yn nodi hefyd "Efallai i'r cyfle yn y Cyfrifiad hwn am y tro cyntaf i nodi'r ymdeimlad o genedligrwydd gyfrannu at golli rhai fu'n defnyddio'r blwch Cristnogol yn y ffordd honno yn y gorffennol." Casgliad Gethin yw bod "niferoedd 2021 yn fwy realistig nac o'r blaen o ran y niferoedd sydd ag ymlyniad ymarferol o rwy fath gyda chynulleidfa Gristnogol, neu awydd i ymwneud â Christnogaeth trwy'r cyfryngau cymdeithasol neu ddarllediadau crefyddol . Mae pob lle i gredu fod

hyn yn wir eisoes am y crefyddau eraill a restrir”. Mae Gethin yn nodi hefyd fod yna gryn amrywiaeth o ardal i ardal, ac yn drydydd mae’n cyfeirio hefyd at ymchwil a gynhaliodd ac a gyhoeddodd y felin drafod, Theos ar y rhai a nododd yn y cyfrifiad nad oedd ganddynt grefydd. Mae’r ymchwil hwnnw gan Theos yn dangos yn fras bod modd dosrannu’r rhai a nododd nad oedd ganddynt grefydd yn dair carfan – y ‘campaigning nones’, y ‘tolerant nones’ a’r ‘spiritual nones’ gyda’r olaf yma ymhlith y mwyaf diddorol gan eu bod yn aml yn dangos ystod o gredoau ac arferion ysbrydol, megis gweddïo, encilio, myfyrio ac ati. Dylid nodi hefyd i 6.3% fethu ag ateb y cwestiwn gwirfoddol hwn ynghylch ymlyniad crefyddol. Y gwir amdani – eto fel y mae Gethin yn ei nodi – yw bod y “Cyfrifiad yn erfyn defnyddiol o ran deall poblogaeth Cymru...ond fe fydd y canlyniadau yn codi mwy o gwestiynau nag y byddant yn eu hateb!”

Yn ddiddorol ddigon, dyma oedd pwnc yr Archesgob Andrew John o’r Eglwys yng Nghymru pan roddodd anerchiad i grŵp traws-bleidiol Senedd Cymru ar grefydd ym mis Mehefin, a sgwrs ddiddorol oedd hi hefyd. Yn ei anerchiad fe wnaeth yr Archesgob gydnabod – fel y mae Gethin yn ei wneud – bod canlyniadau’r cyfrifiad yn codi mwy o gwestiynau nac atebion ond yn sicr ei gasgliad oedd bod ‘na newid wedi bod yn ymlyniad crefyddol y genedl ac yn awgrymu sawl rheswm am hyn. Y cyntaf o’r rhain yw’r twf mewn seciwlariaeth a bod hyn i raddau yn deillio o’r newid pwyslais oherwydd gwelliant cymharol y rhelyw o’r boblogaeth i fod yn fwy cefnog, felly’r pwyslais nawr yw “Lles Materol” gyda phobl yn llwyddo i fyw o ddydd i ddydd heb Dduw. Mae’n cyfeirio hefyd at ein bod yn ôl-fodern, a bod ‘na gystadleuaeth fawr ar y Sul bellach a bod hyn wedi bod yn her i bob math o sefydliadau a nid dim ond yr Eglwysi. Perthynolaeth / Relativism – gyda’r rhelyw ohonom ni gyda’n cred ar rhyw sbectrwm yn hytrach na chred absoliwt ond mae ‘na anogaeth yn yr amrywiaeth yma hefyd, a chyfleodd hefyd - gyda’r archesgob yn awgrymu bod na gyfleoedd yn perthyn i’n adeiladau eglwysig yn ogystal â heriau, a bod yr esiampl a roddir gan gredinwyr sy’n byw bywyd sanctaidd, ac yn rhoi eraill yn gyntaf, yn annog y ffydd – “planet we not just planet me”. Ac yna’r symud a fu i gael profiadau – mwy nag erioed o’r blaen mae pobl eisiau profiadau, ac mae na gyfle gwirioneddol yn hynny gan bod pobl dal ag ymlyniad at werthoedd ac yn dyheu am rhywbeth y tu hwnt i’r materol yn unig. Mae ‘na gyfle gwirioneddol felly i ni fel eglwysi gynnig profiad ysbrydol awthentig i’r rhai sy’n chwilio amdano, a bod hynny yn bwysicach i’r rhelyw na chyflwyno’r ffydd mewn ffordd ddeallusol.

Roedd yr hyn ddywedodd Archesgob Andy tua diwedd Mehefin yn adleisio cryn dipyn o'r pedair araith allweddol a glywais i rai dyddiau yn gynt yn ystod Cymanfa Gyffredinol CEC – y Conference of European Churches, a oedd yn cwrdd yn Tallinn, Estonia rhwng 15 a 20 Mehefin. A'r rheswm rwy'n cyfeirio at yr areithiau hynny yw bod 'na wersi amlwg i ni yma yng Nghymru o'r areithiau a glywyd – a'r wers amlycaf oll efallai yw pwysigrwydd ehangu yn hytrach na chrebachu ein gorwelion, hyd yn oed wrth i'r niferoedd fynychu ein heglwysi leihau, gan fod gennym cymaint yn gyffredin â, ac i'w ddysgu oddi wrth, yr hyn sy'n digwydd mewn rhannau eraill o Ewrop ac yn wir weddill y byd. Y siaradwr allweddol cyntaf oedd Sviatlana Tsikhanouskaya, sef arweinydd yr wrthblaid yn Belarus wedi i'w gŵr, Siarheu, a fu'n arweinydd cynt, gael ei arestio gan unben Belarus, Aleksandr Lukashenko. Fe siaradodd hi'n ddirdynnol am y sefyllfa yn Belarus yn dilyn y gwrthryfel heddychlon a ddigwyddodd yno yn 2020 ac a ymddangosai yn llwyddiannus am rai dyddiau, cyn i Lukashenko yr unben ymateb i'r protestiadau heddychlon gyda thrais difrifol sydd wedi para ers hynny, gyda rhyw 4,000 o wrthwynebwyr bellach wedi ei carcharu ar ôl wynebu cyhuddiadau chwerthinllyd – megis gwisgo dillad o'r lliw 'anghywir'. Ond eto roedd ei gweledigaeth hi o le Cristnogaeth yn gwrthwynebu'r trais hwnnw yn gwbwl glir – dim ond â daioni y mae trechu drygioni. Mae hi'n rhybuddio hefyd bod *regimes* treisgar bob amser yn ceisio rheoli cynrychiolwyr ffydd am eu bod ofn y ffaith eu bod ag ymlyniad â Duw yn hytrach na dim ond rhywbeth bydol, ac felly yn ceisio eu gorthrymu, ceisio prynu eu tawelwch trwy roi breintiau neu ffafr iddynt, ac wrth gwrs yn aml maent yn llwyddo – a doedd hi'n ddim syndod o bosib i'w chlywed yn feirniadol o'r Patriarch Kirill yn Moscow, a'i ymateb ef i ymosodiadau Rwsia ar Wcrain. Ond roedd Sviatlana yn glir bod dim modd ennill rhyfel heb hefyd ennill yr heddwch - bod rhaid ymwrthod â thrais - a bod gan Gristnogaeth a'r eglwysi Cristnogol le allweddol wrth ddadlennu twyll, celwyddau a thrais llywodraethau ar draws Ewrop a gwneud hynny trwy sefyll dros y gwir, trwy sefyll yn glir dros frawdoliaeth a chwaeroliaeth a chariad yng ngwir ystyr y gair - ym mha bynnag ffordd bosib - yn cynnwys gweddi.

Neges fawr yr academydd a'r cymdeithasegydd o'r Almaen, Hartmut Rosa, oedd pwysigrwydd cyseiniant (*resonance*) yn ein bywydau a dod o hyd i gydbwysedd. Mae'n gweld ein bod wedi cyrraedd sefyllfa bellach fel cymdeithas Ewropeaidd o fod yn carlamu er mwyn aros yn yr unfan, a bod angen ail-flaenoriaethu ar ein bywydau er mwyn symud ymlaen o'r pwyslais ar dwf di-derfyn ac yn hytrach ail-ddarganfod lle perthynas â'n gilydd. Tybed nad oes gwersi i ni fel eglwysi yng Nghymru yn hyn o beth hefyd. Oes 'na ormod o

bwyslais wedi bod ar dwf, a ydym wedi colli'r gallu i gydnabod y pethau eraill y dylem fod yn ei gyfrannu at gymdeithas, ac wedi ein llyncu gan y celwydd mai twf yw llwyddiant? Fel y dywedodd Rosa, un o wendidau amlwg ein cymdeithas bellach yw nad oes iddi galon sy'n gwrando – "this society massively lacks a listening heart" - ac mae 'na le i eglwysi ddarparu hynny os fedran nhw symud y tu hwnt i gyhoeddi a diogelu gwirioneddau yn unig sef yr hyn sy'n achosi calon galed yn ôl Rosa. Oes 'na le i gyseiniant yn ein ymwneud â'n gilydd wrth i ni edrych at ddyfodol eciwmeniaeth yng Nghymru? Oes gennym ni galon sy'n gwrando, wrth i ni ymwneud â'n gilydd? Ac a all y cyseiniant – y *resonance* – hwn arwain at eni rhywbeth newydd? Pan fydda i'n siarad gyda'r rhelyw o weinidogion a gweithwyr eglwysig mae'r diffyg *resonance* yn eu bywydau yn glir. Does bosib nad ydym ni hefyd wedi cyrraedd sefyllfa bellach o redeg i aros yn ein hunfan a bod rhaid cydnabod nad dyma'r ffordd o wireddu Teyrnas Dduw. Perthynas yw'r oll ac yn ôl Rosa "religion derives its great power, namely from the fact that it makes a kind of vertical promise of resonance, that it says: the silent, cold, hostile or indifferent universe is not at the basis of my existence, but a response relationship ... 'I have called you by your name, you are mine'". Gadewch i ni gofio hynny.

Ond wrth gwrs mae 'na berygl i eciwmeniaeth hefyd – does ond rhaid i chi gofio cyfres deledu gomedi boblogaidd Father Ted. Pan oedd unrhyw beth yn anodd neu'n gymhleth yna "that would be an ecumenical matter" fyddai geiriau anochel clerigion Craggy Island. Dyna hefyd rybudd y Patriarch Uniongred Eciwmenaidd, Barthlomew a rybuddiodd rhag cael ein swyno gan yr hyn mae'n ei alw yn "eciwmeniaeth newydd". Dyma fudiad yr oedd e' yn ei ddiffinio fel un sy'n bygwth dwyn ynghyd ystod o gredoau - cyson yn eu tyb nhw â Christnogaeth - gan ffwndamentalwyr 'family values'. Ar ôl 4 mlynedd o Trump yn y Tŷ Gwyn prin bod angen gwneud y pwynt hwn, ond fel yr oedd Sviatlana Tsikhanouskaya yn ei bwysleisio, mae'r ymadrodd 'pan gyll y call fe gyll ymhell' yn medru bod yn arbennig o wir am arweinyddion eglwysig sy'n cael eu hudo a'u swyno gan atyniadau'r byd hwn – ac yn enwedig felly o ran grym a dylanwad tybiedig.

Ond fe hoffwn hefyd gyfeirio at ddwy araith arall a glywais yn ddiweddar – a oedd â themâu digon tebyg i'w gilydd. Y gyntaf oedd araith cyn archesgob Cymru, Rowan Williams yng nghymanfa gyffredinol CEC yn Tallinn, a'r ail oedd araith arbennig yr Athro Anthony Reddie, Cyfarwyddwr Canolfan Rhydychen ar gyfer Crefydd a Diwylliant, Coleg Mansfield, Rhydychen, yng nghyfarfod Cyffredinol yr Annibynwyr Cymraeg yn Rhosllannerchrugog ddiwedd mis

Mehefin. Roedd Anthony yn siarad ar wahoddiad Llywydd newydd yr Annibynwyr, sef y Parch Jeff Williams. Ond araith Rowan Williams yn gyntaf.

Cychwynnodd yr Archesgob ei araith trwy holi beth yw ystyr cael ein bendithio – gan gyfeirio at y Bregeth ar y Mynydd yn benodol. Mae'n dweud mai pobl wedi eu bendithio – pobl ffodus – yw'r rheini nad ydynt yn gaeth neu'n garcharorion i'w storïau eu hunain, sy'n medru osgoi cynyddu'r adnoddau sydd ganddynt a chydnabod yn hytrach eu dibyniaeth ar roddion Duw ac ar ei drugaredd. Ac mae hyn yn wir am eglwysi ac am fudiadau hefyd – yn cynnwys y mudiad eciwmenaidd yng Nghymru. Mae'n cydnabod ein bod ni oll â storïau amdanom ni ein hunain a bod dim o'i le â hynny, ond bod modd i ni ddod yn gaeth i'r storïau rheini, os ydyn nhw yn cyfrannu yn anghymesur at ein statws ac at ein hunaniaeth. Yng ngeiriau +Rowan "there are some stories that become so compulsive we have a kind of addictive relation, almost, to a picture of how we work and who we are. And so we build up and we reinforce all those things that give us a sense of worth and virtue." Mae'n mynd ymlaen i bwysleisio bod hyn yn groes i'r naratif Gristnogol sy'n dweud NAD oes angen i ni ennill ein gwerth ein hun – does dim angen i ni gyrraedd rhyw lefel o ddaioni cyn bod Duw yn ein caru ni a theimlo'n sicr. Mae stori Duw yn glir – mae'n ein caru ni beth bynnag ac mae hyn i'w weld yn y Beibl drwyddo draw megis yn llyfr Deutoronomium lle dywed Moses wrth bobl Israel – "y'ch chi'n meddwl bod Duw wedi eich dewis chi am eich bod yn ysblennydd? Na, mae Duw wedi eich dewis chi am ei fod wedi eich dewis chi". A'r un peth yn y Testament Newydd – ac yn enwedig hanes y swper olaf lle mae Iesu yn dweud wrth ei ddisgyblion "Dwi'n gwybod eich bod chi i gyd yn mynd i fy ngadael i lawr. Dyma fy nghorff a fy ngwaed i'ch porthi, achos dwi ddim yn mynd i unman – fe fydda i gyda chi hyd ddiwedd yr oes" ac mae hyn yn cael ei atgyfnerthu gan yr Atgyfodiad lle mae Duw Dad yn dweud yr un peth – "dwi'n mynd i nunlle, dyw'r Mab yn mynd i nunlle, a dyw'r Ysbryd Glân yn mynd i nunlle. Rydym ni yma. Rydym ni yma gyda chi." Hynny yw, rydym ni oll wedi ein galw i fod yn rhan o gymuned lle NAD oes angen i ni brofi ein gwerth byth a hefyd lle dyw'r niferoedd yn ein heglwysi, a'n llwyddiant ni ddim yn bwysig – lle bo'n hanfod ni yn dod o'r ffaith bod Duw yn ein caru ni. Swnio'n debyg i 'resonance' Hartmut Rosa? A'r pwynt yw mai trwy addoliad y cawn ein tynnu nôl i galon y stori honno bob amser, ein hatgoffa o'r hyn ydym ni, a'r hyn nad ydym ni. Does dim angen i ni fod yn berffaith. Does dim angen i ni fod yn dduw – bod yn fodau dynol sydd angen i ni fod a bod yn agored i'r hyn sy'n cael ei roi gan Dduw. I ddyfynnu araith Rowan eto - a dyma'r neges go iawn i ni fel mudiad

eciwmenaidd ac eglwysi - "We have to learn that our worth does not have to be created by our effort, and that our identity does not consist in what we can make and preserve for ourselves or in the conviction of our innocence and goodness. The story we now tell is of another kind of shared identity, in which a community finds its solidity in the knowledge that each one is faithfully present for the sake of all others; where mutual assurance of our attention and acceptance creates a foundation for trust. And the cornerstone of this is simply the recognition that this community exists in a state of 'blessing', alignment with the act of God, whose love is not apportioned as a reward". Dyna'r newyddion da – bod Duw yn ein caru fel yr ydym, bod bywyd yr Ysbryd ynom ni. A bod y bywyd hwnnw yn ein tynnu nol i'r geiriau rheini a oedd wrth wraidd araith +Rowan sef "erfyn" a "breuddwydio" – pleading and dreaming. Yn ein gweddi rydym yn erfyn ar Dduw dros y byd. Rydym yn erfyn ar Dduw i agor y byd i'w bwrpas ef ac i'w gariad ef mewn ffyrdd newydd. Ond mae angen i ni hefyd freuddwydio gyda'r freuddwyd honno sy'n dweud 'nad oes angen i bethau fod fel hyn'. Mae yn bosib i ni fyw mewn ffordd wahanol. Mae'n fater – i fi gael ail-adrodd y pwynt – o ryddhau ein hunain oddi wrth ein storïau ein hunain sy'n ein caethiwo ni, ac yn hytrach i osod ein hunain i fod yn rhan o stori Dduw. A plîs ewch i dudalen flaen gwefan Cytûn – www.cytun.cymru er mwyn gweld y cyfweliad a recordiodd +Rowan gyda fi yn Tallinn.

Mae Anthony Reddie hefyd yn gwneud pwynt digon tebyg yn yr araith a roddodd ef yng nghyfarfod blynyddol yr Annibynwyr yn Rhosllannerchrugog nôl ddiwedd mis Mehefin. Adrodd storïau wnaeth Anthony Reddie yn fwy na heb ac wrth gwrs mae mewn llinach hynod anrhydeddus o gofio damhegion Iesu. Ei gwestiwn cychwynnol oedd 'beth yw ystyr bod yn ddilynwr Iesu mewn amseroedd newidiol ac mewn cyd-destun sy'n newid?'. Mae'n sôn sut yr ydym oll yn cerdded o gwmpas gyda rycsac ddychmygol gennym sy'n cario'r trysorau rheini sy'n bwysig i ni ac wrth gwrs mae'r trysorau yn y rycsac yn newid dros amser. Felly o roi enghraifft bersonol i chi, ddeugain mlynedd yn ôl byddai fy rycsac ddychmygol wedi cynnwys camera. Erbyn hyn – a rwy'n dal i fwyhau tynnu lluniau yn fawr iawn – mi fyddai lle'r camera wedi ei gymryd gan Cath a'r plant – nhw yw fy nhrysor bellach, ac wrth gwrs mae'r broses hon yn bwysig. Fel y dywed Anthony, os na fedrwch chi adael pethau ar ôl, yna ffwndamentaliaeth yw'r canlyniad. Ond wrth gwrs, os ydym ni'n gadael pethau i fynd jyst er mwyn rhoi'r ffad neu'r gimic diweddaraf yn ein rycsac, yna fe wnawn ni golli pethau pwysig hefyd ar hyd y daith. Ond mae'n bwysig i ni gofio hefyd nad yw pethau'r gorffennol o reidrwydd yn well na rhai'r dyfodol. Mae

‘na densiwn parhaus – fel y nododd +Rowan hefyd – rhwng ein gwreiddiau a’n taith – rhwng y “root” a’r “route” – fel y disgrifiodd Anthony’r peth.

Ac, eto fel y dywedodd Anthony, mae na beryg hefyd i ni ddechrau diffinio ein hunain ar sail yr hyn **nad** ydym ni a dyna sydd wedi digwydd i raddau trawiadol yn ein gwleidyddiaeth yma ym Mhrydain dros y degawd diwethaf. Mae ‘na begynnu difrifol wedi digwydd, a does dim enghraifft well o hynny yn fy marn i na’r drafodaeth fel ag oedd hi ynghylch Brexit cyn refferendwm 2016. Ond mae hyn i’w weld mewn cenhedloedd a gwladwriaethau eraill hefyd – fel sy’n amlwg yn hanes Trump yn yr UDA. Felly sut mae mynd i’r afael gyda’r tensiwn hwn rhwng ‘root’ a ‘route’? Mae Anthony yn awgrymu bod Actau 2 – dal pethau yn gyffredin – yn dangos ffordd ymlaen; mai’r ffordd orau ymlaen yw gweithio ar y cyd, sicrhau bod ‘na bobl o’ch cwmpas sy’n eich cadw yn atebol ac yn dweud pethau wrthych y byddai’n well gennych chi beidio â chlywed; a mabwysiadu dynesiad tebyg i un Martin Luther King, a arferai ddweud bod modd i ni “disagree without being disagreeable.” Mae angen sgyrsiau adeiladol ynghylch yr ardaloedd llwyd rheini rhwng y ddau begwn ac mae ‘na ddyletswydd ar yr eglwysi i sicrhau brawdoliaeth ar draws y gwahaniaethau er mwyn i ni ddod yn nes at yr hyn y mae Duw yn ei ddymuno i ni fod.

A dyna ni - sawl cwestiwn heriol tu hwnt i’r mudiad eciwmenaidd yng Nghymru ar hyn o bryd:

- Sut mae sicrhau gwireddu chwaeroliaeth a brawdoliaeth amlwg yn ein bywydau bob dydd fel yr oedd Sviatlana Tsikhanouskaya yn ein hannog ni i’w wneud?
- Sut mae symud y tu hwnt i’n gofidiau am niferoedd a’n ffocws rhemp, fel cymdeithas – ac eglwysi – ar dwf fel yr oedd Hartmut Rosa yn ei holi. Sut mae dod o hyd i gyseiniaint, i resonance, gyda’n gilydd?
- Sut mae osgoi heriau’r “eciwmeniaeth newydd” fel yr oedd y Patriarch Bartholomew yn ei ddisgrifio, a’r dwyn ynghyd sydd wedi bod o amrywiol enwadau er mwyn cydweithio i hyrwyddo agenda eithafol o ‘werthoedd traddodiadol’ sy’n bell iawn oddi wrth ddysgeidiaeth Iesu?
- Beth mae’n ei olygu i ni yng Nghymru i dorri’n rhydd fel enwadau, ac yn wir fel offerynnau eciwmenaidd, oddi wrth hualau’r storïau yr ydym ni’n eu hadrodd wrthym ni ein hunain ac sy’n rhoi ein hunaniaeth i ni er mwyn medru closio at y stori sydd gan Dduw ar ein cyfer? Ydi’r amser wedi dod i ni benderfynu bod rhai o strwythurau’r gorffennol yn ein rhwystro yn hytrach nac yn ein cynorthwyo o ran cydweithio bellach? Yn

wir, oes ‘na ddyfodol i Cytûn? Ar y pwynt olaf hwn, ynghylch a oes angen Cytûn, mae’n werth i ni ein hatgoffa ein hunain o’r sefyllfa yn yr Alban lle daeth yr offeryn eciwmenaidd i ben rai blynyddoedd yn ôl. Gweld ei golled fu’r hanes, felly mae na gryn ymdrechion ar y gweill ar hyn o bryd i’w atgyfodi, ond mae hyn yn cael ei lesteirio gan nad yw'r broses o ddadgofrestru'r elusen wreiddiol - y penderfynwyd ei dirwyn i ben wedi ei chwblhau - a bydd dechrau ail-gofrestru yn sugno egni ac adnoddau.

- Ydym ni, fel yr holodd Anthony Reddie yn rhy gaeth i’n ‘root’ a hynny yn ein rhwystro rhag datblygu ein ‘route’ at y dyfodol?

Yn ffodus ddigon – fel y dywedais yn gynt - mater i Ymddiriedolwyr Cytûn mewn ymgynghoriad â’r arweinwyr eglwysig yw ateb y cwestiynau hyn. Ond fedrwn ni ddim llaesu dwylo. Mae’n rhaid i ni feddwl yn galed ac yn greadigol ynghylch yr hyn yr ydym ni yn dymuno i’r mudiad eciwmenaidd fod yn y dyfodol; y tasgau yr ydym eisiau iddo ei gyflawni; a’r adnoddau yr ydym ni am ei roi i Cytûn, er mwyn cyflawni’r tasgau rheini. Dyw’r sefyllfa bresennol lle bo Cytûn gyda chyllideb weithredol o dim ond £20,000 y flwyddyn, wedi talu costau staffio a swyddfa, jyst ddim yn gynaladwy. Felly cwestiynau caled ac anodd, ond os na wnawn ni eu holi, yna parhau yn yr un hen rigol fydd ein hanes, ac i fi yn bersonol, mae bywyd yn rhy fyr i’w wastraffu ar hynny.

Felly nôl at yr ail fynydd a chip ar y dyfodol o bosib. Felly fel y gŵyr rhai ohonoch, yn ogystal â gweithio i Cytûn, rwy’n gweithio hefyd fel offeiriad di-dâl i’r Eglwys yng Nghymru ac yn offeiriad ar hyn o bryd yn Eglwys Crist, Parc y Rhath, Caerdydd. Tan ddiwedd y llynedd Trystan Owain Hughes oedd Rheithor Eglwys Crist, Parc y Rhath ac yn fy ngoruchwylio i fel curad yno. Nadolig y llynedd, cefais lyfr oddi wrth fy mentor a’m cyfaill, yn dwyn yr enw *The Second Mountain: The quest for a moral life*. Ynddo mae’r awdur, David Brooks - sy’n golofnydd gyda’r *New York Times* - yn cyflwyno’r achos dros ddringo’r ail fynydd yn ein bywydau. Dyma’r syniad yn ei hanfod.

Wrth i ni gyrraedd oedran bod yn oedolyn yn ein harddegau hwyr, ein dauddegau a’n tridegau, rydym yn dringo’r mynydd cyntaf. Yn y cyfnod hwn, ein nod a’n hamcan yw ceisio ennill cydnabyddiaeth cymdeithas a meithrin statws o fewn y gymdeithas honno. Ein ffocws yn anad dim arall yw ennyn edmygedd cymdeithas – gan holi’r cwestiwn beth all cymdeithas ei wneud i mi? Rwy’n siŵr ein bod ni i gyd yn adnabod rhai pobl sydd byth yn gadael y cyfnod hwn. Ond ar y cyfan mae’r rhan fwyaf o bobl, pan fyddan nhw yn cyrraedd canol oed yn cael rhyw brofiad neu ddigwyddiad sy’n mynd â nhw i lawr i’r dyfnderoedd –

naill ai'n llythrennol neu'n ffigurol. I fi cael diagnosis o ganser oedd e yn 48 oed, a mae profiad o'r fath yn gwneud i chi ail-ystyried eich blaenoriaethau.

Mae'r ail fynydd os y'ch chi'n dewis ei ddringo yn gwbl wahanol – mae'ch ffocws, yn ôl David Brooks ar yr hyn y medrwch chi ei wneud er mwyn cyfrannu at gymdeithas. Felly yn ystod cyfnod y mynydd cyntaf rydym ni'n canolbwyntio ar yr hyn y medrwn ni ei gael oddi wrth gymdeithas, ond erbyn cyrraedd yr ail fynydd, mae ein ffocws ar yr eithaf arall – ein ffocws nawr yw beth fedrwn ni ei wneud er mwyn cyfrannu at gymdeithas? Felly'r cwestiwn y byddwn i'n ei holi yw – yng ngoleuni her Rowan Williams ac Anthony Reddie bod angen i ni newid y trysorau yn ein rycsac ac i beidio â bod yn gaeth i storïau'r gorffennol - tybed nad yw hi'n bryd i'r mudiad eciwmenaidd yng Nghymru, ac yn wir yr eglwysi yng Nghymru sy'n aelodau Cytûn, sylweddoli bod y mynydd cyntaf wedi ei ddringo, a'i bod hi'n awr yn amser i ystyried o'r newydd sut i ddringo'r ail fynydd? I ystyried o'r newydd beth allwn ni fel Eglwysi Ynghyd yng Nghymru ei gyfrannu ar y cyd yn lleol yn rhanbarthol ac yn genedlaethol yma yng Nghymru i fywyd ein cenedl yn hytrach na disgwyl am yr hyn y gall ein cenedl, ein cymdeithas, ei roi i ni.

Wedi'r cyfan hanfod eciwmeniaeth yw'r adnodau rheini o ail bennod ar bymtheg yr Efengyl yn ôl St Ioan sy'n adrodd sut i Iesu, y noson cyn ei groeshoelio, weddïo ar y Tad gan ddweud *"Rwy'n gweddïo ar iddynt oll fod yn un, ie, fel yr wyt ti, O Dad, ynof fi a minnau ynot ti, iddynt hwy hefyd fod ynom ni, er mwyn i'r byd gredu mai tydi a'm hanfonodd i. Yr wyf fi wedi rhoi iddynt hwy y gogoniant a roddaist ti i mi, er mwyn iddynt fod yn un fel yr ydym ni yn un: myfi ynddynt hwy, a thydi ynof fi, a hwythau felly wedi eu dwyn i undod perffaith, er mwyn i'r byd wybod mai tydi a'm hanfonodd i, ac i ti eu caru hwy fel y ceraist fi."* Ac efallai mai'r ymadrodd allweddol i ni yma yw "Un er mwyn y byd" a dyw hi'n ddim syndod mai dyma deitl un o lyfrau un o'm rhagflaenwyr di-gymar yn y swydd hon, y Parch Noel Davies, a gyhoeddwyd ym 1988.

Felly dyma ddwy stori fach chwim i gloi sydd efallai yn taflu rhywfaint o oleuni ar yr hyn sydd gen i mewn golwg – y gyntaf o'r ysgrythurau, o'r Efengyl yn ôl St Mathew 9: 18-26 a'r ail o faes cwbl wahanol. Y stori o'r Efengyl yn ôl St Mathew yn gyntaf:

*Tra oedd ef yn siarad fel hyn â hwy, dyma ryw lywodraethwr yn dod ato ac ymgrymu iddo a dweud, "Y mae fy merch newydd farw; ond tyrd a rho dy law arni, ac fe fydd fyw."*

*A chododd Iesu a dilynodd ef gyda'i ddisgyblion.*

*A dyma wraig ac arni waedlif ers deuddeng mlynedd yn dod ato o'r tu ôl ac yn cyffwrdd ag ymyl ei fantell. Oherwydd yr oedd hi wedi dweud ynddi ei hun, "Dim ond imi gyffwrdd â'i fantell, fe gaf fy iacháu." A throes Iesu, a gwelodd hi, ac meddai, "Cod dy galon, fy merch; y mae dy ffydd wedi dy iacháu di." Ac iachawyd y wraig o'r munud hwnnw.*

*Pan ddaeth Iesu i dŷ'r llywodraethwr, a gweld y pibyddion a'r dyrfa mewn cynnwrf, dywedodd, "Ewch ymaith, oherwydd nid yw'r eneth wedi marw; cysgu y mae." Dechreusant chwerthin am ei ben. Ac wedi i'r dyrfa gael ei gyrru allan, aeth ef i mewn a gafael yn ei llaw, a chododd yr eneth. Ac aeth yr hanes am hyn allan i'r holl ardal honno.*

1. Ymateb i wahoddiad ac angen – hyd yn oed oddi wrth bwysigion – ac yn gweld tu hwnt i'w statws ac yn gweld y person - a'r ing - sydd ynghlwm â'r cais.

2. Y wraig â gwaedlif – ar y cyrion yn ddiwylliannol yn ogystal â meddygol oherwydd ei anhwylder – ac wedi dioddef ers nifer fawr o flynyddoedd – ond Iesu byth yn rhy brysur i ddelio ag angen, hyd yn oed ar ei ffordd i gynorthwyo pwysigion.

3. Ac yna rydym yn cyrraedd cartref y llywodraethwr – ac mae 'na wylofain a rhincian dannedd yma – a'r hyn sy'n drawiadol yw bod Iesu yn cael pobl yn chwerthin am ei ben – ond dyw hynny ddim yn ei wyro o'i dasg.

Felly beth yw gwersi'r darn bach hwn i ni fel Cristnogion yn ystyried dyfodol eciwmeniaeth yng Nghymru:

1. Yn gyntaf – mai'r hyn mae Iesu yn ei wneud yw ymateb i **angen** – oddi wrth y pwysigion a'r rhai ar gyrion cymdeithas
2. Yn ail – pwysigrwydd holi i Iesu am yr hyn sydd ei angen arnom a bod â ffydd y bydd yn ateb ein gweddïau – efallai mewn ffordd nad ydym yn ei ddisgwyl – ond bod ateb i weddi.
3. Ac yn drydydd – bod pobl am chwerthin arnom os fyddwn ni'n gwneud gwaith yr Arglwydd – ond na ddylem adael i hynny ein gwyro o'r llwybr

Felly gadewch i mi orffen gyda'r ail stori sydd ynghylch hedfan. Nawr fel mae rhai ohonoch chi yn gwybod mae Pwyll ein mab hynaf yn hyfforddi i fod yn beilot masnachol ac wedi bod â diddordeb ysol mewn hedfan, ac wedi eisiau

bod yn beilot, ers iddo gychwyn medru siarad yn blentyn bach iawn. Felly mae stori "Y wyrth ar yr Hudson" wedi bod yn rhan o chwedloniaeth y teulu ers i'r ddamwain ddigwydd ar y 15$^{fed}$ Ionawr 2009. I'r rhai ohonoch chi sydd ddim mor hysbys â ni â'r stori ga' i eich gwahodd i wylio ffilm 'Sully', gyda Tom Hanks yn chwarae rhan Capten yr awyren, neu wrando ar bodlediad ar BBC Sounds o'r enw *Witness History: Miracle on the Hudson*. Yn y podlediad hwnnw, rydym yn clywed llais Capten Chesley "Sully" Sullenberger ar ehediad US Airways 1549 o Awyrenfa La Guardia yn Efrog Newydd. Ond y cymeriad amlycaf yn y podlediad yw Dave Sanderson – y teithiwr olaf o'r 155 o deithwyr i adael yr awyren.

Felly dyma'r stori yn ei hanfod. Fe gododd yr awyren, Airbus A320, o awyrenfa La Guardia yn Efrog Newydd gyda'r bwriad o hedfan i Charlotte yn North Carolina. Dwy funud ac unarddeg eiliad ar ôl gadael y rhedfa, pan oedd yr awyren ar uchder o 2,818 o droedfeddi, fe darodd yr awyren haid o wyddau gyda nifer o'r gwyddau, druen, yn cael eu sugno i mewn i'r ddwy injan. Ar unwaith fe ddaeth y ddwy injan i stop. Aeth y ddau beilot trwy'r holl gamau ar y rhestr ar gyfer ailgychwyn yr injans a dod i'r casgliad nad oedd modd gwneud hynny. Dywedodd Sully yn fuan iawn wrth Air Traffic Control nad oedd modd iddo ddychwelyd at La Guardia na mynd chwaith i awyrenfa arall yn y cyffiniau, sef Teterboro yn New Jersey. Mewn ychydig iawn o eiriau mae'n dweud wrth ATC - "We're going in the Hudson". Lai na saith munud wedi gadael y rhedfa, rhywsut llwyddodd Sullenberger i lanio'r awyren ar yr afon Hudson mewn un darn.

Felly beth oedd hanes Dave Sanderson – y teithiwr olaf i adael yr awyren ar ôl iddi lanio yn yr afon Hudson? Roedd Dave yn deithiwr cyson, gan hedfan dros 100 o weithiau y flwyddyn fel dyn busnes. Roedd e bob amser yn dilyn yr un patrwm wedi dringo ar yr awyren – setlo yn ei sedd, agor ei gylchgrawn a gwrando ar rhywbeth trwy ei glustffonau. Fydda i o byth yn gwrando ar y cyhoeddiad diogelwch, na chwaith yn edrych i weld lle'r oedd y drysau er mwyn gadael yr awyren mewn argyfwng.

Pan darodd yr awyren y gwyddau fe glywodd Dave yr injan agosaf ato yn dod i stop. Roedd hyn wedi digwydd o'r blaen, felly doedd e ddim yn or-ofidus. Mater o droi'n ôl fyddai hi a chael awyren arall i barhau â'r daith. Wrth gwrs wyddai o ddim bod yr ail injan wedi dod i stop hefyd a dim ond pan welodd o adeiladau Manhattan yn llawer nes nac erioed o'r blaen trwy ffenestri'r awyren y dechreuodd  o feddwl bod rhywbeth o'i le. Cafodd hynny ei gadarnhau pan glywodd lais Capten Sullenberger dros y sustem sain yn dweud "Brace for

impact”. Lai na saith munud ar ôl gadael y rhedfa yn awyrenfa La Guardia, am 15.31 y prynhawn, llwyddodd Sullenberger i lanio’r awyren mewn un darn ar yr afon Hudson.

Agorwyd y drws dros yr aden. Greddf gyntaf Dave Sanderson oedd neidio o’i sedd a’i throi hi am y drws ond wrth iddo wneud hynny, clywodd lais ei fam, a oedd wedi marw bum mlynedd yn gynt, yn dweud wrtho “Dave, if you do the right thing God will take care of you”, felly yn hytrach na ei throi hi am y drws fe drodd Dave am gefn yr awyren i weld a fedrai gynorthwyo rhai o’r teithwyr llai abl. Yno roedd un hen wraig a oedd yn benderfynol nad oedd am symud o’i sedd. Bu’n rhaid iddi gael ei hannog gan deithwyr eraill, a safodd Dave y tu ôl iddi a thrwy waith tîm llwyddodd Dave ac eraill i gael y wreigan at y drws ac allan ar yr aden. Dave oedd y teithiwr olaf ar yr awyren ac erbyn iddo gyrraedd y drws, roedd yr aden eisoes yn llawn o bobl – dim lle iddo. Roedd e’n teimlo ei bod hi ar ben – ond unwaith eto clywodd lais ei fam yn dweud wrtho – “No such thing as can’t Dave!” felly pan welodd gwch yn taro trwyn yr awyren fe benderfynodd neidio i mewn i’r dŵr rhewllyd (5°C) – cofiwch mai ar 15 Ionawr y digwyddodd hyn. Cyrhaeddodd y cwch yn ddiogel, diolch i’r gwersi nofio yr oedd ei rieni wedi mynnu ei fod yn eu cael pan yn blentyn, a chael ei dynnu o’r dŵr.

Gan ei holi am y digwyddiad beth amser wedyn holwyd i Dave beth oedd yn aros gyda fe am y ddamwain a’r hyn ddigwyddodd, ac yn enwedig ddisgrifiad Dave Paterson, Llywodraethwr Talaith Efrog Newydd ar y pryd, o’r digwyddiad fel “The miracle on the Hudson”, a dyma ddywedodd e:

“You’ve got to look at the entire situation. You have a plane in New York city the busiest city in the world, at rush hour, so at the busiest time in the busiest city, and passengers came together as a team - people who did not know each other and didn’t care about each other - and it shows the power, when you check in your ego at the door, ANYTHING is possible”

Gyfeillion – wrth i ni edrych ar ddyfodol eciwmeniaeth gyda’n gilydd gadewch i ni ddilyn cyngor Dave – “when you check in your ego at the door, ANYTHING is possible.”

Diolch yn fawr iawn am eich sylw, am ddod heno, ac yn enwedig i Casi a Rosie am y gwahoddiad i roi’r ddarlith hon er cof am Lloyd Jones – mae wedi bod yn fraint.